

Cronfa Menter Gwledig Sir Gaerfyrddin

Canllawiau i Ymgeiswyr



Cymorth grant i gefnogi mentrau preifat a thrydydd sector i ddatblygu safleoedd busnes newydd a phresennol yn ardal wledig Sir Gaerfyrddin.

Cronfa Menter Gwledig Sir Gaerfyrddin - Canllawiau Grant

1. Rhagarweiniad

- 1.1 Mae Cyngor Sir Gaerfyrddin wedi sicrhau cyllid er mwyn darparu cymorth grant i brosiectau cyfalaf ar gyfer mentrau gwledig y sir. Bydd y Grant yn darparu cymorth i fentrau ac unig fasnachwyr ar gyfer datblygu safleoedd busnes newydd a phresennol, lle caiff swyddi newydd eu creu o ganlyniad i'r prosiect.
- 1.2 Mae gan y rhaglen gyllideb benodedig ac felly mae'r cynllun yn seiliedig ar egwyddor "her". Rhoddir blaenoriaeth i geisiadau fydd yn dod â buddiannau amlwg i'r economi leol o ran nifer ac ansawdd y swyddi uniongyrchol a gaiff eu creu mewn sectorau allweddol.
- 1.3 Bydd y cynllun hwn yn cael ei weithredu o dan Gynllun Cymorth Cyflogaeth a Cymorth Buddsoddi Cyfalaf a Chynllun Cymorth Cyflogaeth Llywodraeth Cymru Cyf: SA.49662.

2. Ceisiadau / Ardaloedd Cymwys

- 2.1 Bydd yn rhaid i'r adeilad sydd i'w ddatblygu, ei wella neu ei helaethu fod mewn Ardal Wledig o Sir Gaerfyrddin fel y diffiniwyd yn Strategaeth Datblygu Lleol Ardaloedd Gwledig Sir Gaerfyrddin - mae'r Wardiau Awdurdod Lleol cymwys yn cynnwys:

Abergwili	Cydweli	Llangyndeyrn
Gogledd Tref Caerfyrddin	Talacharn	Llannon
De Tref Caerfyrddin	Llanboidy	Llansteffan
Gorllewin Tref Caerfyrddin	Llanddarog	Llanybydder
Cenarth	Llandeilo	Maenordeilo a Salem
Cil-y-cwm	Llanymddyfri	Pen-bre
Cynwyl Elfed	Llandybie	Pontyberem
Cynwyl Gaeo	Llanegwad	Sanclêr
Y Garnant	Llanfihangel Aberbythych	Llanismel
Glanaman	Llanfihangel-ar-arth	Trelech
Y Glyn	Llangadog	Trimsaran
Gorslas	Llangeler	Hendy-gwyn ar Daf
Yr Hendy	Llangynnwr	Cwarter Bach

- 2.2 Rhaid i bob ymgeisydd fod yn hyfyw yn economaidd ac yn ariannol.

- 2.3 Bydd grantiau ar gyfer gwaith ar eiddo ar gael i berchnogion y buddiant rhydd-ddaliad yn yr eiddo neu i ddalwyr prydles sydd i barhau am o leiaf saith mlynedd arall ar ôl y dyddiad a rhagwelir y bydd taliad terfynol y grant yn cael ei wneud.

Bydd yn rhaid i ddalwyr prydles sicrhau caniatâd ysgrifenedig gan eu landlordiaid ar gyfer y gwaith arfaethedig.

3. Gwaith nad yw'n gymwys

Mae'r rhain yn cynnwys:-

- Adnewyddu lle na newidir defnydd yr adeilad.
- Gwaith atgyweirio a chynnal a chadw arferol.
- Gwaith sy'n ymwneud â gofynion iechyd a diogelwch/rheoliadau statudol.
- Caffael eiddo.
- Tirweddu meddal.
- Gwaith sydd eisoes wedi cychwyn.

Sectorau Anghymwys - Dylech gyfeirio at Cymorth Buddsoddi Cyfalaf a Chynllun Cymorth Cyflogaeth Llywodraeth Cymru Cyf: SA.49662

4. Y Grant

Seilir y grant naill ai ar £20,000 am bob swydd a grëir neu hyd at y cyfraddau ymyrraeth canlynol, pa ffigwr bynnag sydd leiaf:-

Bach	Canolig	Mawr
45%	35%	25%

Ni ellir cael arian cyfatebol gan gyllid cyhoeddus eraill ar gyfer y grant hwn.

Uchafswm y grant yw £128,000 Mewn amgylchiadau eithriadol, mae'n bosibl y gallai hyn gynyddu. Mae hyn ar ddisgresiwn Cyngor Sir Caerfyrddin a bydd y penderfyniad yn derfynol.

5. Y Broses Gwneud Cais

Bydd y weithdrefn hon yn cynnwys dau gam.

5.1 Mae'n rhaid cyflwyno'r canlynol gyda Cham 1 y cais:-

- Brasluniau o'r adeiladau presennol / cynigion

Mae'n rhaid i ffurflenni cais wedi'u cwblhau a darluniadau gael eu cyflwyno i:

Cronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin
Cyngor Sir Caerfyrddin
Y Ganolfan Datblygu Busnesau Cefn Gwlad
Nant-y-ci
Caerfyrddin

Sir Gaerfyrddin. SA33 5DR

- 5.2 Bydd y panel grantiau yna'n asesu ac yn ystyried yr holl geisiadau ac yn rhoi gwybod i'r ymgeiswyr a ydynt wedi bod yn llwyddiannus yn ystod Cam 1 ai peidio.
- 5.3 Os yw'r cais yn llwyddiannus, gofynnir i'r ymgeisydd gyflwyno ffurflen gais fanylach ar gyfer Cam 2, ynghyd â'r canlynol:-
- Map Ordnans neu fap maint A4 ar raddfa ddigonol i bennu'n glir union leoliad yr eiddo dan sylw.
 - Yn dibynnu ar natur y prosiect, mae'n bosibl y bydd angen adroddiad arolwg cyfredol o gyflwr/strwythur yr eiddo, wedi'i baratoi gan bensaer neu syrfêwr proffesiynol cymwys.
 - Lluniadau wrth raddfa yn dangos yr adeilad presennol a'r gwaith arfaethedig, ynghyd â manyleb fanwl o'r gwaith. Dylai'r rhain gael eu paratoi gan Syrfêwr Meintiau / Pensaer sy'n meddu ar gymwysterau proffesiynol priodol.
 - Lle bo'n briodol, copïau o bob caniatâd statudol perthnasol.
 - Datganiad yn dangos y gyfran o'r ffioedd sy'n gysylltiedig â'r gwaith, ynghyd ag enw a chymwysterau unrhyw ymgynghorydd proffesiynol a gyflogir gan yr ymgeisydd.
 - Rhaglen waith a rhagolwg o'r costau.
 - Y cyfrifon diweddaraf, neu yn achos busnes newydd, rhagolwg o'r incwm a'r gwariant ar gyfer y 12 mis nesaf.
 - Tystiolaeth o berchenogaeth tir neu gopi o'r brydles, ynghyd â chaniatâd y perchennog tir.
 - Tystiolaeth bod arian cyfatebol ar gael.
 - Cynllun busnes manwl sy'n dangos yn glir sut y bydd y prosiect yn mynd rhagddo, gan gynnwys rhagamcanion 3 blynedd o ran llif arian. Mae'n bosibl cael cymorth ar gyfer hyn, felly cysylltwch â Thîm Caerfyrddin a'r Ardal Wledig drwy ffonio 01267 242429 i gael cyngor am gymorth posibl.
 - Disgrifiadau swydd manwl ar gyfer yr holl swyddi a fydd yn cael eu creu o ganlyniad i'r grant hwn.
 - Dyfynbrisiau/tendrau gan bobl broffesiynol addas a chymwys ar gyfer dylunio, goruchwyllo, ac ardystio'r gwaith arfaethedig.

- Dyfyniadau / tendrau ar gyfer y gwaith adeiladu.
 - Adroddiad tendro gan Syrfëwr Meintiau yr ymgeiswyr.
- 5.4 Bydd y panel grantiau ac Aelod o Fwrdd Gweithredol y Cyngor yna'n asesu ac yn ystyried y ceisiadau unigol yn ystod Cam 2. Rhoddir gwybod i'r ymgeisydd ynghylch y penderfyniad. Ni fydd apeladau'n cael eu hystyried.
- 5.5 Os yw'r cais yn llwyddiannus, bydd yr ymgeisydd yn cael llythyr cynnig ffurfiol yn ddyblyg â thelerau ac amodau a bydd yn rhaid iddo/iddi lofnodi'r ddau gopi a dychwelyd un copi ynghyd â rhaglen waith a rhagolwg cyrchu'r grant.
- 5.6 Er mwyn hawlio taliad grant interim, bydd yn rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus gwblhau, llofnodi (ymgeisydd yn unig) a dychwelyd ffurflen hawlio interim ynghyd â thystysgrif brisio interim gan bensaer, anfoneb gan y contractwr a phrawf talu.
- 5.7 Er mwyn hawlio taliad grant terfynol, mae'n rhaid i ymgeisydd llwyddiannus gwblhau, llofnodi (ymgeisydd yn unig) a dychwelyd ffurflen hawlio derfynol ynghyd â thystysgrif gwblhau ymarferol gan bensaer, holl anfonebau gwreiddiol y prosiect a phrawf talu. Os yw'r gwariant ar waith cymwys yn is na'r hyn a ragwelwyd yn y llythyr cynnig grant, bydd y grant yn cael ei leihau ar sail pro rata.

6. Diffiniadau

Menter- Unrhyw fusnes sy'n ymwneud â gweithgarwch economaidd, beth bynnag yw ei ffurf gyfreithiol. Mae hyn yn cynnwys pobl hunan-gyflogedig a phartneriaethau neu gymdeithasau sy'n ymwneud â gweithgarwch economaidd yn rheolaidd.

Swydd uniongyrchol - Swydd barhaol Cyfwerth ag Amser Llawn (30 awr a mwy) y gellir ei chyfrif a'i monitro yn rhan o'r prosiect e.e. un sy'n cael ei chreu o ganlyniad i'r cymorth a roddir i'r busnes hwnnw

7. Y Meini Prawf ar gyfer Asesu

Dylai ymgeiswyr nodi y bydd y Cyngor Sir yn asesu'r prosiect yn erbyn amrywiol feini prawf -

- Nifer ac ansawdd y swyddi Cyfwerth ag Amser Llawn sy'n cael eu creu.
- Nifer yr adeiladau / arwynebedd llawr i'w wella / datblygu.
- Gwerth am Arian – ar sail canran y grant y gofynnir amdano yng nghyswllt manteision economaidd.
- Sector Blaenoriaeth
- Effaith ar yr Iaith Gymraeg.

- Effaith ar Amcanion Strategaeth Dinas-ranbarth Abertawe
http://www.swanseabaycityregion.com/getfile.php?type=site_document&id=SBCR%20Econ%20Strategy.pdf

8. Y Grant

- 8.1 Ni ellir cynnig y grant ond yn yr achosion hynny lle mae'r Cyngor yn fodlon na all y prosiect fynd rhagddo heb y cyfryw gymorth, boed hynny ar y raddfa a fwriadwyd neu'n unol ag amserlen resymol.
- 8.2 Bydd swm y grant a gynigir i bob prosiect yn cael ei benderfynu gan y Cyngor Sir ac yn cael ei seilio ar y gost dendro isaf ar gyfer y gwaith a gymeradwywyd ac y barnwyd ei fod yn gymwys i gael cymorth grant.
- 8.3 Swm y grant a nodir yn y llythyr cynnig grant yw'r uchafswm y gall y Cyngor Sir ei gyfrannu at y prosiect. Os bydd unrhyw ostyngiad yng nghost y gwaith a gymeradwywyd, bydd y Cyngor Sir yn sicrhau bod y grant a gynigiwyd yn wreiddiol yn destun gostyngiad pro-rata.
- 8.4 Fel arfer, ni fydd y grant a gynigir yn cynnwys TAW. Os nad oes modd i'r ymgeisydd adennill TAW, mae'n bosibl y gellir ei dderbyn fel cost gymwys yn ôl disgrisiwn y Cyngor Sir, cyn belled â bod yr ymgeisydd yn ymrwymo i ad-dalu i'r Cyngor Sir unrhyw TAW y bydd modd, ymhen amser, ei hawlio'n ôl oddi wrth Dollau Tramor a Chartref Ei Mawrhydi yn sgil newid yn statws TAW yr ymgeisydd.

9. Ffioedd proffesiynol sydd ynghlwm wrth weithredu'r contract

9.1 Rhaid i'r sawl sy'n derbyn grant gyflogi ymgynghorydd proffesiynol sy'n meddu ar y cymwysterau priodol i asesu tendrau, i oruchwyllo gwaith y prosiect, ac i gyflwyno tystysgrifau ar gyfer gwaith a gwblheir. Gellir cynnwys y gost hon yn y gwariant sy'n gymwys i gael cymorth grant, hyd at derbyn o 15% o gyfanswm cost y adeladu, cyn belled â'i bod wedi cael ei nodi yn y ffurflen gais a bod cais wedi cael ei wneud am gynted ysgrifenedig penodol y Cyngor Sir cyn cyflogi ymgynghorwyr. Mae'n rhaid bod yr ymgynghorydd proffesiynol yn meddu ar gymhwyster sy'n briodol i natur y gwaith arfaethedig.

9.2 Dylai ymgeiswyr ddarparu dyfynbrisiau/tendrau (yn unol â'r canllawiau caffael a nodir yn adran 12 isod) gan weithwyr proffesiynol sy'n meddu ar gymwysterau addas ar gyfer dylunio, goruchwyllo ac ardystio'r gwaith arfaethedig.

10. Gwneud cais am grant

Wrth wneud cais am grant bydd yr ymgeisydd yn gwarantu i'r Cyngor Sir fod yr holl wybodaeth a ddarperir ar y ddwy ffurflen gais a gyda hwy yn wir ac yn gywir ym mhob ffordd, a'i bod yn parhau felly, ynghyd â bod unrhyw amcangyfrifon a chanlyniadau rhagweladwy neu ffeithiau eraill wedi cael eu nodi ar ôl cynnal yr ymchwil ofynnol yn ofalus. Bernir bod y warant hon yn

cael ei rhoi unwaith yn rhagor pan fydd yr ymgeisydd yn cyflwyno'r ffurflen hawlio grant. Sylwch mai'r ymgeisydd sy'n gorfod llofnodi'r ffurflen gais, ac nid asiant penodedig sy'n gweithredu ar ei ran.

11. Y Gofrestrfa Tir

Bydd angen gosod cyfyngiad ar weithredoedd yr eiddo, a chânt eu cofrestru yn y Gofrestrfa Tir am bum mlynedd o leiaf ar ôl dyddiad y taliad grant terfynol. Yr ymgeisydd fydd yn gyfrifol am drefnu hyn ac unrhyw gostau cysylltiedig. Ar ôl y cyfnod hwn, yr ymgeisydd fydd yn gyfrifol am godi'r cyfyngiad ac am unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â hynny.

12. Caffael

Pan fyddant yn prynu rhywbeth neu'n talu am wasanaeth, dylai ymgeiswyr geisio cael gwerth am arian a rhoi cyfle i ystod o fusnesau ddarparu'r nwyddau neu'r gwasanaethau hynny mewn modd teg a chlr.

Felly mae'n rhaid i'r ymgeisydd sicrhau bod y gweithdrefnau caffael canlynol yn cael eu mabwysiadu'n unol â gwerth amcangyfrifedig (heb gynnwys TAW) y contract pan gyflwynir y dyfynbris/cyn cyflwyno'r tendr. Mae'n rhaid i'ch penderfyniad ddangos gwerth gorau ac mae'n rhaid ichi gadw cofnodion sy'n cefnogi eich penderfyniad.

Bydd methu â chydymffurfio'n llawn â'r trothwyon caffael yn golygu y bydd y costau'n anghymwys ar gyfer cymorth o dan y gronfa hon.

Cyfeiriwch at Atodiad 1

13. Osgoi gwrthdaro buddiannau

Mae'n bosibl y bydd ymgeiswyr y prosiect, neu bersonau sy'n gysylltiedig â hwy (fel perthnasau, partneriaid busnes neu ffrindiau) am dendro am contract a gynigir gan ymgeisydd y prosiect. Mae hyn yn dderbyniol, ond bydd yn rhaid i'r ymgeisydd sicrhau ei fod yn gwneud popeth mor glir ac agored â phosibl. Os oes gan yr ymgeisydd, neu unrhyw un arall sy'n gysylltiedig ag ef, fuddiant mewn unrhyw rai o'r cynigion posibl am contract:-

- mae'n ofynnol i'r ymgeisydd ddatgan unrhyw fuddiant cyn cyflwyno'r dogfennau tendr;
- darperir rhestr o dendrwy'r arfaethedig i Gyngor Sir Caerfyrddin i'w hystyried cyn cyflwyno'r dogfennau tendr;
- dylid dychwelyd tendrau yn uniongyrchol i Gyngor Sir Caerfyrddin
- ni ddylai'r ymgeisydd fod yn rhan o gyflwyno, agor na recordio'r tendrau hynny.
- Dylai'r broses gael ei rheoli ar ran yr ymgeisydd gan bensaer neu syrfêwr meintiau.
- dylai'r ymgeisydd ystyried sut y gellid rhoi'r canllawiau caffael ar waith mewn modd sy'n sicrhau bod y weithdrefn nid yn unig yn deg i'r holl gynigwyr, ond bod hynny hefyd yn amlwg;

- dylid cofnodi pob cam o'r weithdrefn yn ffurfiol a chadw'r cofnodion ar feil fel bod modd eu harchwilio.

14. Caniatâd Statudol

Mae'n rhaid peidio â chyflwyno ceisiadau Cam 2 hyd nes bod pob caniatâd statudol gofynnol (e.e. Caniatâd Cynllunio, Caniatâd ar gyfer Adeilad Rhestredig, Cymeradwyaeth Rheoli Adeiladu) wedi cael ei roi'n llawn. Mae'n bosibl y bydd prosiect heb ganiatâd cymeradwy llawn yn cael ei ystyried yn ystod Cam 2 y broses gwneud cais yn amodol ar statws a bydd unrhyw ddyfarniad grant yn amodol ar gael y caniatâd sydd ei angen.

15. Yswiriant

Am gyfnod o bum mlynedd ar ôl dyddiad rhoi'r grant, mae'n rhaid i'r ymgeisydd yswirio'r eiddo'n llawn gyda chwmni yswiriant cyfrifol, ac, os gofynnir am hynny, roi tystiolaeth o'r yswiriant hwnnw i'r Cyngor Sir.

16. Atgyweirio a chyflwr

Am gyfnod o bum mlynedd ar ôl y dyddiad pan delir y grant, mae'n ofynnol i'r ymgeisydd gadw'r eiddo mewn cyflwr da.

17. Ad-dalu'r grant

Bydd y cyllid yn cael ei gadw'n ôl a/neu, o ran taliad sydd wedi cael ei wneud, bydd derbynnydd y grant yn ad-dalu'r cyllid naill ai'n llawn neu'n rhannol, gan gynnwys:

- os bydd archwiliad domestig gan yr Awdurdod, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Swyddfa Archwilio Cymru neu unrhyw un o'u cynrychiolwyr, yn cael hyd i amgylchiadau lle mae angen gwneud ad-daliad llawn neu rannol, neu os yw'r Awdurdod fel arall yn gofyn bod y cyllid i gael ei gadw'n ôl, ei leihau, ei ganslo, neu ei adennill;
- os oes gordaliad wedi cael ei wneud o ran y cyllid;
- os canfyddir bod yr ymgeisydd wedi camliwio mewn perthynas â'r cais;
- mae'r ymgeisydd wedi torri telerau ac amodau'r grant;
- os nad yw'r eiddo'n cael ei adfer yn llawn o fewn 12 mis wedi unrhyw ddigwyddiad a achosodd i'r eiddo ddioddef colled neu ddifrod;
- os yw'r prosiect, yn ystod ei oes economaidd, yn newid yn sylweddol a'i fod yn cael ei ddefnyddio at ddibenion heblaw'r rhai a nodwyd yn y cais, neu os yw perchennog y prosiect yn newid ac na hysbyswyd Cyngor Sir Caerfyrddin am hynny. Cyfnod taliad terfynol y grant yw'r hyn a olygir wrth oes economaidd y prosiect.

18. Gwerthu Asedau

- 18.1 Mae'n rhaid i'r ymgeisydd gael caniatâd ysgrifenedig y Cyngor Sir cyn gwaredu'r eiddo mewn unrhyw fodd o fewn 5 mlynedd ar ôl dyddiad y taliad grant terfynol.
- 18.2 Bydd y Cyngor Sir yn mynd ati i gofnodi gyda'r Gofrestrfa Tir fuddiant yn yr eiddo y rhoddir cymorth grant iddo, naill ai drwy gyfyngiad neu bridiant cyfreithiol. Yn achos tir nad yw wedi'i gofrestru, lle nad yw'r opsiwn o gyfyngiad ar gael, efallai y bydd yn rhaid sicrhau pridiant cyfreithiol bob amser. Yn sgil y broses hon bydd y Cyngor Sir yn cael ei hysbysu am unrhyw newid ym mherchenogaeth neu brydles yr eiddo. Bydd y Cyngor am sicrhau nad oes unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud i'r gwaith sy'n cael cymorth grant, ac ni fydd yn gwrthod unrhyw ganiatâd yn afresymol, ond gall fynnu bod y grant yn cael ei ad-dalu yn rhannol neu'n llawn.

Ni fydd y Cyngor yn gwrthod caniatâd o'r fath yn afresymol, ond gall ofyn bod y grant yn cael ei ad-dalu'n rhannol yn unol â'r canlynol:

Dyddiad gwaredu'r ased(au)	Y swm sydd i'w ad-dalu
O fewn 1 flwyddyn	Y cyllid i'w ad-dalu'n llawn
O fewn 2 flynedd	80% o'r cyllid i'w ad-dalu
O fewn 3 blynedd	60% o'r cyllid i'w ad-dalu
O fewn 4 blynedd	40% o'r cyllid i'w ad-dalu
O fewn 5 mlynedd	20% o'r cyllid i'w ad-dalu
Ar ôl 5 mlynedd	Dim cyllid i'w ad-dalu

Y gofynion o ran yr isafswm y mae'n rhaid ei ad-dalu yw'r uchod

19. Monitro

- 19.1 Trwy roi rhybudd rhesymol, mae'r Cyngor Sir yn cadw'r hawl i archwilio'r eiddo/gwaith unrhyw bryd rhwng adeg derbyn y cais am grant a diwedd y cyfnod o bum mlynedd ar ôl dyddiad talu'r grant. Gall y Cyngor Sir benodi unrhyw weithwyr proffesiynol y mae'n barnu eu bod yn addas i gynnal archwiliad o'r fath ar ei ran.
- 19.2 Mae'n rhaid i'r ymgeisydd gadw'r copïau gwreiddiol o bob anfoneb, cyfrif, neu ddogfen arall (gan gynnwys rhifau cyfresol nwyddau a brynir) sy'n gysylltiedig â'ch prosiect cymeradwy am ddeng mlynedd ar ôl dyddiad y taliad terfynol o dan. Cymorth Buddsoddi Cyfalaf a Chynllun Cymorth Cyflogaeth Llywodraeth Cymru Cyf: SA.49662 Bydd cofnodion yn cynnwys manylion digonol er mwyn dangos fod amodau'r cynllun wedi cael eu bodloni.
- 19.3 Bydd manylion unrhyw ddyfarniad sy'n fwy na 500,000 Ewro a rhoddir o dan Rif Cyfeirnod Cymorth Gwladwriaethol SA.49662 Cynllun Cymorth Buddsoddi Cyfalaf a Chynllun Cymorth Cyflogaeth Llywodraeth Cymru Cyf: ar

gael i'r cyhoedd drwy wefan Cymorth Gwladwriaethol o fewn 2 flynedd i weithredu'r cynllun.

19.4 Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin yr hawl i archwilio gwaith y grant o ran prosiectau cymeradwy ar bob lefel y rhoddir nhw ar waith, yn ôl trefn samplo briodol, a chynhelir yr archwiliad, i'r graddau y mae hynny'n bosibl, cyn gwneud y taliad terfynol i'r prosiect, ond mae posibilrwydd y caiff ei gynnal ar ôl cwblhau'r prosiect

20. Materion eraill sy'n gysylltiedig â'r cais am grant

20.1 Yr Iaith Gymraeg

Bydd angen i ymgeiswyr amlinellu sut mae'r cynllun yn helpu i ddatblygu'r iaith Gymraeg ac yn cadw'r gweithlu lleol.

Bydd yn ofynnol i'r holl arwyddion sy'n cael eu codi fel rhan o'r prosiect fod yn ddwyieithog.

20.2 Rhaid eich cyngori bod angen i chi cydymffurfio gyda Deddf Iechyd a Diogelwch, Cynllun a Rheoliad Rheolaeth

21. Asbestos

21.1 Os deuir o hyd i asbestos mewn adeilad sy'n destun cymorth grant, ac os yw hynny'n amlwg ar y cychwyn, mae'n bosibl y gall yr ymgeisydd gynnwys y costau hyn yng nghyfanswm cost y prosiect. Os na cheir gwybod bod asbestos yno hyd nes ar ôl i'r grant gael ei roi, cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw talu unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'i waredu o'r safle yn ddiogel.

22. Manylion Cyswllt

22.1 I gael rhagor o fanylion am y cynllun grant, cysylltwch â'r Swyddogion Prosiect drwy ffonio 01267 242419.

23. Cyflwyno Ceisiadau

23.1 Dylid anfon ceisiadau i'r cyfeiriad canlynol:

Cronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin
Datblygu Economaidd
Cyngor Sir Caerfyrddin
Y Ganolfan Datblygu Busnesau Cefn Gwlad
Nant-y-ci
Caerfyrddin
Sir Gaerfyrddin SA33 5DR

e-bost:- rfurlong@sirgar.gov.uk

Atodiad 1 - Rheolau ynghylch Caffael Grantiau Trydydd Parti

Gofyniad	Cyfanswm Gwerth (heb gynnwys TAW)	Y Broses Gaffael
Pob un	hyd at £4,999	<p><u>Rhaid</u> ceisio a chadw o leiaf 1 dyfynbris ysgrifenedig.</p> <p>Rhaid cael gwerth gorau am yr arian a chymryd gofal rhesymol i sicrhau bod y nwyddau, y gwaith, neu'r gwasanaethau a gafwyd o safon addas ac wedi eu prynu am bris cystadleuol. At ddibenion archwilio, rhaid cadw cofnod ysgrifenedig yn cefnogi'r penderfyniad.</p>
Pob un	£5,000 a £24,999	<p><u>Rhaid</u> ceisio o leiaf 3 dyfynbris ysgrifenedig o ffynonellau cystadleuol*. Rhaid seilio'r dyfynbrisiau ar yr un fanyleb a'u gwerthuso ar sail 'tebyg am debyg'.</p> <p>At ddibenion archwilio, rhaid cofnodi'r dyfynbrisiau a wahoddwyd, y broses werthuso a'r penderfyniad dyfarnu mewn dogfen gofnodedig.</p>
Pob un	£25,000 a £74,999	<p><u>Rhaid</u> ceisio o leiaf 3 dyfynbris ysgrifenedig o ffynonellau cystadleuol*. Rhaid seilio'r dyfynbrisiau ar y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • yr un fanyleb, • yr un meini prawf gwerthuso a gwerthuso'r cynigion ar sail 'tebyg am debyg'. Yr arfer gorau yw sefydlu panel gwerthuso. • yr un dyddiad cau. <p>At ddibenion archwilio, rhaid cofnodi'r dyfynbrisiau a wahoddwyd, y broses werthuso a'r penderfyniad dyfarnu mewn dogfen gofnodedig.</p> <p>** Os na ddaw mwy nag un dyfynbris i law mae'n rhaid cysylltu â'r Rheolwr Prosiect o Gyngor Sir Caerfyrddin (CSC), i roi'r manylion a chyfiawnhau'r broses gaffael a ddefnyddiwyd. Bydd yn rhaid i CSC gymeradwyo'r penderfyniad i symud ymlaen i brynu fesul achos. Os yw'n amlwg y gellid ceisio mwy nag un dyfynbris, <u>gallai</u> hysbysebu ar wefan GwerthwchiGymru fod yn ofynnol.</p>
Nwyddau a Gwasanaethau	£75,000 a £164,176	<p><u>Rhaid</u> ceisio o leiaf 4 tendr o ffynonellau cystadleuol*, gydag isafswm o 2 dendr yn dod i law**.</p> <p>Rhaid rhoi'r un wybodaeth i bawb sy'n tendro:</p> <ul style="list-style-type: none"> • yr un fanyleb a'r un gofynion, • amlinelliad o'r meini prawf gwerthuso a ddefnyddir wrth ddyfarnu'r contract ac • yr un dyddiad cau ar gyfer cyflwyno tendrau, gydag ymrwymiad i beidio â derbyn ceisiadau ar ôl hynny. <p>Mae'n rhaid i'r broses werthuso a ddefnyddir gyd-</p>

		<p>fynd â'r meini prawf gwerthuso a bennwyd yn wreiddiol a rhaid llunio adroddiad gwerthuso sy'n nodi ar ba sail y dyfarnwyd y tendr llwyddiannus. Yr arfer gorau yw sefydlu panel gwerthuso i bwysu a mesur y tendrau.</p> <p>** Os na ddaw mwy nag un tendr i law mae'n rhaid cysylltu â'r Rheolwr Prosiect o Gyngor Sir Caerfyrddin (CSC), i roi'r manylion a chyfiawnhau'r broses gaffael a ddefnyddiwyd. Bydd yn rhaid i CSC gymeradwyo'r penderfyniad i symud ymlaen i brynu fesul achos. Os yw'n amlwg y gellid ceisio mwy nag un tendr, <u>gallai</u> hysbysebu ar wefan GwerthwchiGymru fod yn ofynnol.</p>
Gwaith	£75,000 a £4,104,394	<p>Rhaid ceisio o leiaf 4 tendr o ffynonellau cystadleuol*, gydag isafswm o 3 thendr yn dod i law**.</p> <p>Rhaid rhoi'r un wybodaeth i bawb sy'n tendro:</p> <ul style="list-style-type: none"> • yr un fanyleb a'r un gofynion, • amlinelliad o'r meini prawf gwerthuso a ddefnyddir wrth ddyfarnu'r contract ac • yr un dyddiad cau ar gyfer cyflwyno tendrau, gydag ymrwymiad i beidio â derbyn ceisiadau ar ôl hynny. <p>Mae'n rhaid i'r broses werthuso a ddefnyddir gyd-fynd â'r meini prawf gwerthuso a bennwyd yn wreiddiol a rhaid llunio adroddiad gwerthuso sy'n nodi ar ba sail y dyfarnwyd y tendr llwyddiannus. Yr arfer gorau yw sefydlu panel gwerthuso i bwysu a mesur y tendrau.</p> <p>** Os na ddaw mwy nag un tendr i law mae'n rhaid cysylltu â'r Rheolwr Prosiect o Gyngor Sir Caerfyrddin (CSC), i roi'r manylion a chyfiawnhau'r broses gaffael a ddefnyddiwyd. Bydd yn rhaid i CSC gymeradwyo'r penderfyniad i symud ymlaen i brynu fesul achos. Os yw'n amlwg y gellid ceisio mwy nag un tendr, <u>gallai</u> hysbysebu ar wefan GwerthwchiGymru fod yn ofynnol.</p> <p>Yn achos contractau sy'n werth mwy na £250,000:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Wrth ddewis contractwyr ar gyfer y rhestr dendro argymhellir bod y gwiriadau ariannol a diwydrwydd dyladwy priodol yn cael eu cynnal ynghylch y partïon hynny; • Fel gofyniad lleiaf, rhaid cynnal gwiriadau ariannol a diwydrwydd dyladwy ynghylch y contractwr a ffafirir yn dilyn y gwerthusiad a chyn dyfarnu'r contract.
Nwyddau a	Mwy na	Os yw contract am Nwyddau neu Wasanaethau

Gwasanaethau	£164,176	yn debygol o fod yn fwy na £164,176 rhaid i'r ymgeisydd gysylltu â'r rheolwr prosiect i gael gwybod a fydd Cyfarwydddeb Contractau Cyhoeddus yr UE yn berthnasol i'r contract.
Gwaith	Mwy na £4,104,394	Os yw contract am Waith yn debygol o fod yn fwy na £4,104,394 rhaid i'r ymgeisydd gysylltu â'r rheolwr prosiect i gael gwybod a fydd Cyfarwydddeb Contractau Cyhoeddus yr UE yn berthnasol i'r contract.

Canllawiau Pwysig

Hysbysebu drwy wefan GwerthwchiGymru

* Mae'n bosibl ichi hysbysebu ar y wefan Gaffael Genedlaethol, www.gwerthwchigymru.co.uk os yw'n anodd ichi bennu isafswm nifer y cyflenwyr sydd ei angen a/neu os hoffech newid cyflenwyr neu ddenu cyflenwyr newydd i gyflwyno dyfynbris neu dendr. Bernir mai hysbysebu ar wefan GwerthwchiGymru yw'r arfer gorau. Fodd bynnag, gallech deimlo y byddai'n well gennych nodi cyflenwyr posibl a allai ddarparu'r cynnig gorau cyffredinol i chi.

Mae'r cyfleuster hwn ar gael ichi yn rhad ac am ddim. Ewch i wefan GwerthwchiGymru, sef <http://www.gwerthwchigymru.llyw.cymru/> a chysylltu â llinell gymorth y wefan drwy ffonio 0800 222 9004 i gael rhagor o wybodaeth.

Ceisio Dyfynbrisiau/Tendrau

Yn achos gwariant o fwy na £5,000 mae'n hanfodol y gofynnir am y dyfynbrisiau/tendrau gan gyflenwyr priodol ar gyfer y nwyddau, y gwaith neu'r gwasanaethau sydd eu hangen. Os yw'n amlwg bod dyfynbrisiau/tendrau anaddas wedi cael eu ceisio, gallai hysbysebu ar wefan GwerthwchiGymru fod yn ofynnol.

Cyllidwyr Eraill

Os bydd prosiect yn gysylltiedig ag unrhyw ffrydiau cyllid eraill neu ffrydiau cyllid ychwanegol, mae'n rhaid dilyn y Rheolau Caffael Grantiau Trydydd Parti hyn ar y lleiaf, a hynny ar gyfer cyfanswm gwariant amcangyfrifedig y gofyniad.

Osgoi gwrthdaro buddiannau

Rydym yn sylweddoli ei bod yn bosibl y gallai ymgeiswyr / datblygwyr neu unigolion sy'n gysylltiedig â hwy (megis perthnasau, partneriaid busnes neu gyfeillion) ddyuno tendro am gontract sy'n cael ei gynnig gan yr ymgeisydd / datblygwr. Mae hynny'n dderbyniol ond bydd angen i'r ymgeisydd sicrhau bod y broses dendro yn cael ei chynnal mewn modd agored, a'i bod yn dryloyw a theg, fel yr amlinellir uchod, heb roi unrhyw fantais i un unigolyn neu gwmni dros y llall. Rhaid cymryd camau priodol i atal, nodi ac unioni unrhyw wrthdaro buddiannau.

Os oes gan ymgeisydd/datblygwr neu unrhyw unigolyn sy'n gysylltiedig â hwy'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, fudd ariannol, economaidd neu wleidyddol neu fudd personol arall y gellid ystyried ei fod yn peryglu ei ddiueddrwydd a'i annibyniaeth yng nghyswllt y weithdrefn gaffael:

- rhaid i'r ymgeisydd / datblygwr, neu unrhyw unigolyn neu barti arall sydd â budd, ddatgan y cyfrwy fudd yn ysgrifenedig i'r Swyddog Prosiect a fydd yn rhoi cyngor yn unol â hynny.
- rhaid i'r manylebau a'r meini prawf gwerthuso beidio â bod yn unochrog neu wedi'u haddasu i ffafrio un ateb neu un parti dros y llall.
- ni ddylai'r unigolyn neu barti sydd â budd, gymryd unrhyw ran o gwbl yn y gweithdrefnau gwerthuso tendrau er mwyn sicrhau bod y broses yn deg i bawb. Cydnabyddir y bydd angen o bosib i'r ymgeisydd am grant roi'r gymeradwyaeth derfynol.
- rhaid cofnodi pob cam o'r weithdrefn yn ffurfiol.

- Os yw'r contract fel arfer yn destun un weithdrefn dendro, argymhellir y dylai'r noddwr geisio dyfynbrisiau ysgrifenedig gan o leiaf ddau gyflenwr arall (hynny yw, yn dilyn y weithdrefn a nodir uchod am gontractau rhwng £5000 a £25,000)

Diben y canllawiau hyn yw sicrhau tegwch o ran gwario arian cyhoeddus a sicrhau nad yw uniondeb yr ymgeisydd yn cael ei beryglu.

Newidiadau i'r fanyleb neu'r contract

Os bydd angen unrhyw newidiadau i'r fanyleb ar ôl ceisio dyfynbrisiau/tendrau sy'n effeithio ar gwmpas gwreiddiol y gofyniad, mae'n bosibl y bydd angen cynnal ymarfer caffael newydd i sicrhau y ceir y gwerth gorau am yr arian. Gallai hyn ddigwydd pan fydd ychwanegiadau annisgwyl at y gofyniad gwreiddiol, pan fydd tendrau yn dod i law sy'n fwy na'r gyllideb sydd ar gael, neu pan fydd lefelau cyllido yn newid ac ati. Rhaid i'r ymgeisydd am grant roi gwybod i'r Swyddog Prosiect a fydd yn rhoi cyngor yn unol â hynny.

- **Gall methiant i gadw at y gweithdrefnau perthnasol a amlinellir uchod gael ei ystyried yn ddiffyg cydymffurfio a gallai hynny arwain at dynnu'n ôl y cynnig o grant a hawlio'r arian yn ôl o bosibl.**
- **Mewn achosion lle na allwch gydymffurfio â gofynion y gweithdrefnau hyn, rhaid ichi roi gwybod i'r rheolwr prosiect bob tro.**
- **Os bydd gennych unrhyw ymholiadau ynghylch sut i weithredu'r gweithdrefnau hyn, cysylltwch â'r rheolwr prosiect i gael eglurhad a chyfarwyddyd pellach.**

Cynghorion ynghylch Tendro

Pethau i'w gwneud	Pethau i beidio â'u gwneud
<ul style="list-style-type: none"> • gofalwch fod unrhyw wrthdaro buddiannau posibl yn cael ei ddatgan ar y cyfle cyntaf posibl. 	<ul style="list-style-type: none"> • Peidiwch â gogwyddo'r fanyleb er mwyn diystyru neu wahaniaethu yn erbyn cyflenwyr h.y. cyfyngu'r fanyleb i frand penodol.
<ul style="list-style-type: none"> • cydymffurfiwch â'r rheolau priodol 	<ul style="list-style-type: none"> • Peidiwch â newid y fanyleb ar ôl iddi gael ei dosbarthu.
<ul style="list-style-type: none"> • Sicrhewch fod y fanyleb yn fanwl-gywir ac heb fod yn fwy na'r gofynion. 	<ul style="list-style-type: none"> • Peidiwch â newid y meini prawf gwerthuso yn ystod y broses.
<ul style="list-style-type: none"> • gofalwch fod y Meini Prawf Gwerthuso yn uniongyrchol berthnasol i bwnc y contract 	<ul style="list-style-type: none"> • Peidiwch â rhoi rhy ychydig o amser i gwmnïau gyflwyno dyfynbris.
<ul style="list-style-type: none"> • Gofalwch lenwi a chadw cofnodion llawn er gwybodaeth ar gyfer y dyfodol ac at ddibenion archwilio 	<ul style="list-style-type: none"> • Peidiwch â rhoi gormod o fanylion ar lafar pan fyddwch yn ateb cwestiynau penodol gan gyflenwyr. Rhaid rhoi'r un wybodaeth i'r holl gyflenwyr i sicrhau bod y broses yn deg.
<ul style="list-style-type: none"> • gofalwch fod y dyfynbrisiau/tendrau yn cael eu gwerthuso ar sail 'tebyg am debyg'. 	<ul style="list-style-type: none"> • Peidiwch â datgelu prisiau i gyflenwyr posibl.

<ul style="list-style-type: none"> • gofalwch eich bod yn delio â chyflenwyr mewn modd agored, tryloyw a hynny heb wahaniaethu. 	<ul style="list-style-type: none"> • Peidiwch â thorri'r rheolau ynghylch cyfrinachedd.
<ul style="list-style-type: none"> • rhowch ddigon o amser i gwmnïau gyflwyno dyfynbris 	<ul style="list-style-type: none"> • Peidiwch ag agor dyfynbrisiau/tendrau cyn y dyddiad cau.
<ul style="list-style-type: none"> • sicrhewch fod gwerth y Nwyddau/Gwaith neu'r Gwasanaeth yn cael ei amcangyfrif yn gywir ar ddechrau'r broses er mwyn defnyddio'r broses gaffael gywir. Rhaid defnyddio'r gwerth cyfunol lle bo'n berthnasol. 	<ul style="list-style-type: none"> • Peidiwch ag ystyried ceisiadau a ddaw i law ar ôl y dyddiad cau.

Diffinio Caffael

Teitl	Disgrifiad
Cyfuno	Cyfuno gwerth y contractau ar wahân ar gyfer yr un cyflenwad, gwasanaeth neu waith.
Contract	Ystyr Contract, at ddibenion y Rheolau hyn, fydd unrhyw gytundeb (boed hwnnw'n ysgrifenedig ai peidio) rhwng yr ymgeisydd am grant ac un neu fwy o bartion eraill ar gyfer:- <ul style="list-style-type: none"> • gwerthu nwyddau neu ddeunyddiau; • cyflenwi nwyddau neu ddeunyddiau; • cyflawni gwaith • darparu gwasanaethau (gan gynnwys adeiladau a chyfleusterau).
Ffynhonnell Gystadleuol	darparwr annibynnol yn gwneud cynnig yn erbyn darparwr annibynnol arall
Nwyddau	eitemau materol, h.y. offer, bwyd, cerbydau ac ati
Cyfarwyddebau Caffael Cyhoeddus Undeb Ewropeaidd yr	rheolau a rheoliadau yw'r rhain y mae'n rhaid i sefydliadau yn y Sector Cyhoeddus eu dilyn wrth gaffael Nwyddau, Gwaith a Gwasanaethau dros drothwy penodol (£164,176 ar gyfer Nwyddau a Gwasanaethau a £4,104,394 ar gyfer contractau Gwaith), a rhaid cynnal Ymarfer Tendro swyddogol yn unol â'r Cyfarwyddebau Caffael Cyhoeddus Ewropeaidd.
Gwerthuso	dull o bennu pa gynnig yw'r gorau o ran darparu gwerth yr arian yn unol â'r meini prawf gwerthuso a bennwyd ymlaen llaw
Meini Prawf Gwerthuso	Rhestr o'r gofynion allweddol a dynnwyd o'r fanyleb a fydd yn galluogi'r cyflenwyr i esbonio sut y maent yn bwriadu darparu'r gofynion a gaiff eu gwerthuso. Mae'r meini prawf y pennir y tendr mwyaf manteisiol yn economaidd arnynt yn seiliedig ar gyfuniad o bris/cost ac ansawdd.
Panel Gwerthuso	Yr arfer gorau yw sefydlu panel gwerthuso i gynnal yr ymarfer gwerthuso. Fe allai fod yn briodol cael panel traws-swyddogaethol. Dylai'r panel gytuno ar y fanyleb a'r meini prawf gwerthuso. Dylai'r Panel weithredu'n gyson ym mhob cam o'r ymarferiad caffael
Cyfnodolyn Swyddogol Undeb Ewropeaidd yr	cyfnodolyn yw hwn lle mae'n rhaid cyhoeddi holl gontractau'r sector cyhoeddus sy'n werth mwy na throthwy penodol (£164,176 ar hyn o bryd am Nwyddau a Gwasanaethau a £4,104,394 am gontractau Gwaith)

(OJEU)	
GwerthwchiGymru	Gwefan Gaffael Genedlaethol yw hon lle caiff holl gontractau'r sector cyhoeddus eu hysbysebu. Hefyd gall rhai sy'n derbyn Grantiau Trydydd Parti hysbysebu ar y wefan yn rhad ac am ddim. Ewch i wefan GwerthwchiGymru http://www.gwerthwchigymru.llyw.cymru/ a chysylltu â llinell gymorth y wefan drwy ffonio 0800 222 9004 i gael rhagor o wybodaeth.
Gwasanaethau	tasgau a wneir gan bobl h.y. gwasanaethau ymgynghoriaeth, gwasanaethau cyfieithu ac ati.
Y fanyleb	datganiad ysgrifenedig yw hwn sy'n diffinio'r gofynion. Bydd y fanyleb yn amrywio yn ôl y gwaith, y cynnyrch neu'r gwasanaeth dan sylw. Ar gyfer cynnyrch syml, gall y fanyleb fod yn ddim mwy na disgrifiad cryno ond yn achos gofyniad cymhleth bydd yn ddogfen gynhwysfawr. Rhaid i'r disgrifiad o'r nwyddau, y gwaith neu'n gwasanaethau sydd eu hangen beidio â chyfeirio at wneuthuriad, brand neu ffynhonnell benodol.
Tendr/Dyfyndbris	Y ddogfen y bydd darpar gyflenwr yn ei llunio mewn ymateb i wahoddiad i dendro. Mae'n cynnwys gwybodaeth gyffredinol sy'n dangos gallu a chymhwysedd y cyflenwr, gan gynnwys gwybodaeth fanwl am sut y mae'n bwriadu cyflawni'r gofynion o ran y fanyleb.
Gwaith	gan gynnwys tirweddu, adeiladu, gwaith adeiladu ac ati